

Canllawiau i Ddarparwyr ar Arolygiadau a Graddau Lleoliadau Gofal Plant, Chwarae a Mynediad Agored

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Ein Rôl.....	3
2. Y sail gyfreithiol dros arolygu	3
3. Y fframwaith arolygu	5
4. Mathau o arolygiadau a'u hamlder.....	7
5. Sicrhau bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir.....	8
6. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth	8
7. Egwyddorion arolygu.....	9
8. Atal a Rheoli Heintiau.....	10
9. Y broses arolygu	10
10. Arsylwadau.....	11
11. Diwylliant Sefydliadol	11
12. Cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg	12
13. Sgoriau Hylendid Bwyd	12
14. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	13
15. Sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn	13
16. Egwyddorion sicrhau gwelliant a gorfodi.....	13
17. Adborth yn ystod yr arolygiad a'r adroddiad arolygu.....	14
18. Yr adroddiad arolygu.....	15
19. Diogelu	15
20. Cyfrifoldebau darparwyr o ran diogelu	16
21. Rhestr o ddogfennau y mae'n debygol y bydd eu hangen at ddibenion arolygu.....	17
22. Graddau	18

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Gwarchod Plant, Gwasanaethau Gofal Dydd a Gwasanaethau Mynediad Agored.

1. Ein Rôl

1.1. Rydym yn arolygu ac yn rheoleiddio lleoliadau gofal plant er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hybu llesiant plant. Drwy ein harolygiadau, rydym yn gwneud y canlynol:

- rheoleiddio ac arolygu lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac adrodd ar ein canfyddiadau
- rhoi sicrwydd annibynnol i bobl sy'n defnyddio lleoliadau ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal plant yng Nghymru
- helpu i ddiogelu plant a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn a'u bod yn cael gofal gan bobl sy'n addas i wneud hynny
- gwella canlyniadau gofal a llesiant plant
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn parhau i fodloni'r gofynion cofrestru
- rhoi gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd am ofal plant.

2. Y sail gyfreithiol dros arolygu

2.1. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru gan barhau'n annibynnol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

2.2. Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu darpariaethau gwarchod plant, gofal dydd a chwarae mynediad agored i blant hyd at 12 oed o dan y canlynol:

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010
- Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwys) (Cymru) 2010
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

DS. Gwnaed rhai diwygiadau i'r rheoliadau uchod ers eu cyhoeddi. Rydym hefyd yn ystyried canllawiau ar gyfer awdurdodau penodedig yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd ysgolion a darparwyr eraill, o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

2.3. Trefnu arolygiadau

Pan fyddwn yn cofrestru darparwr, rydym yn sicrhau bod y cofrestriad yn cael ei fonitro drwy raglen dreigl o arolygiadau a drefnir. Caiff y wybodaeth a ddaw i law rhwng arolygiadau a drefnir ei fonitro hefyd. Mae'r wybodaeth a gesglir drwy'r broses fonitro hon yn rhoi gwybod i ni am berfformiad y gwasanaeth a phryd y dylid trefnu arolygiad dilynol.

Mae ein dull o benderfynu pryd y dylid trefnu arolygiad yn seiliedig ar y canlynol:

- ein hystyriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r math hwnnw o wasanaeth
- gwybodaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth penodol hwnnw yn gweithredu.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i flaenoriaethu risgiau a gwneud penderfyniadau am ein ffordd o reoleiddio gwasanaethau. Mae amrywiaeth o ffactorau yn cael eu hystyried wrth drefnu arolygiadau, sy'n cynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- pryderon a ddaw i law a chyfeiriadau diogelu – gall y rhain ragweld risg i blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- os yw'r gwasanaeth yn un sydd newydd gael ei gofrestru – gall rhai gwasanaethau sydd newydd gael eu cofrestru wynebu mwy o risg yn ystod y cyfnod sefydlu cychwynnol;
- os oes hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyflwyno i'r gwasanaeth neu lle mae hanes o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol;
- os bydd y person â gofal, y person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol yn absennol am fwy na thri mis – gall hyn effeithio ar weithrediad diogel y gwasanaeth; ac
- os yw'r darparwr yn rhan o'r broses o sicrhau gwelliant a llwybr gorfodi.

Er mwyn pennu amllder arolygiadau, rydym wedi datblygu model trefnu sy'n pwysu a mesur y ffactorau a restrir uchod. Bydd ein model trefnu arolygiadau yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn nodi a oes angen cynnal arolygiad **arferol, cynnar** neu arolygiad **â blaenoriaeth** o unrhyw wasanaeth. Fodd bynnag, dim ond dull a ddefnyddir at ddiben penodol trefnu arolygiad yw'r model trefnu hwn. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei bennu yn ystod yr arolygiad.

Rydym wedi adolygu ein data ar arolygiadau arferol ac, yn seiliedig ar ein canfyddiadau, wedi newid y cyfnod hiraf o amser rhwng yr arolygiadau hyn i bum mlynedd. Ar gyfer y gwasanaethau y mae angen iddynt wneud y gwelliannau mwyaf, byddwn yn cynnal arolygiad yn gynharach, a'r cyfnod hwyaf o amser rhwng yr arolygiadau hyn fydd dwy flynedd. Byddwn yn cynnal cyfarfod ansawdd tua hanner ffordd rhwng yr arolygiadau a drefnwyd er mwyn helpu darparwyr i wneud gwelliannau cyn eu harolygiad nesaf.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau y mae angen iddynt wneud y gwelliannau mwyaf ac yn trefnu eu arolygiad o fewn chwe mis. Ni fydd y gwasanaethau hyn yn gymwys i gael cyfarfod ansawdd hyd nes y byddwn yn hyderus eu bod wedi gwneud y gwelliannau gofynnol.

3. Y fframwaith arolygu

- 3.1. Mae'r fframwaith arolygu yn nodi'r meysydd neu linellau ymholi allweddol rydym yn canolbwyntio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedair thema, sydd wedi'u rhannu'n feysydd allweddol: llesiant; gofal a datblygiad; yr amgylchedd ac arwain a rheoli.
- 3.2. Byddwn yn pennu gradd ar gyfer pob thema. Nid ydym yn dyfarnu gradd gyffredinol. Mewn lleoliadau mwy o faint, rydym yn ystyried yr amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael ar adegau gwahanol o'r dydd ac mewn rhannau gwahanol o'r lleoliadau.
- 3.3. Mae'r tabl isod yn nodi'r fframwaith arolygu gofal plant a chwarae.

	Thema	Maes allweddol
P L A N T	1 Llesiant	1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?
		1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
		1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?
		1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?
		1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?
S T A F F	2 Gofal a datblygiad	2.1 Pa mor dda y mae'r ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?
		2.2 Pa mor dda y mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?
		2.3 Pa mor dda y mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?
A R W E I N W Y R	3 Yr Amgylchedd	3.1 Pa mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?
		3.2 Pa mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?
		3.3 Pa mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?
	4 Arwain a rheoli	4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?
4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?		

	4.3 Pa mor effeithiol y mae'r ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?
	4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

4. Mathau o arolygiadau a'u hamlder

- 4.1. Mae ein harolygiadau yn rhan greiddiol o'n model rheoleiddio. Maent yn canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i ddatblygiad a llesiant plant.
- 4.2. Mae AGC hefyd yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag Estyn. Rydym yn arolygu gofal ac addysg plant mewn lleoliadau rheoleiddiedig nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser. Mae arolygiadau ar y cyd yn gwerthuso'r gofal a ddarperir i bob plentyn hyd at 12 oed ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliadau a gynhelir. Gweler <https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-arolygu-gwasanaethau-gofal-plant-chwarae>
- 4.3. Fel arfer, mae arolygiadau llawn yn arolygiadau arferol, sydd wedi'u cynllunio yn unol â'n hamserlen arolygu. Maent yn ystyried pedair thema'r fframwaith arolygu ac yn ein galluogi i wneud y canlynol:
- rhoi sicrwydd bod y lleoliad yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau craidd a bod ganddo systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith
 - adolygu cofrestriad y lleoliad: profi a yw'r lleoliad yn dal i fodloni'r gofynion i barhau wedi'i gofrestru, a bod ei gofrestriad a'i ddatganiad o ddiben yn adlewyrchiad cywir o'r lleoliad a ddarperir
 - rhoi cyfle i arolygwyr fynegi barn am ansawdd y lleoliad.
- 4.4. Cynhelir arolygiad llawn ar ôl i leoliad sydd newydd ei gofrestru ddod yn weithredol.
- 4.5. Gellir cynnal arolygiadau â phwyslais penodol mewn ymateb i bryder neu i fynd ar drywydd achos o ddiffyg cydymffurfio (h.y. peidio â bodloni gofynion y gyfraith) â'r rheoliadau. Mae'n bosibl mai dim ond rhai themâu y bydd yr arolygiadau hyn yn eu hystyried. Rydym bob amser yn manteisio ar y cyfle yn ystod arolygiad â phwyslais penodol i ystyried a gwneud sylwadau ar lesiant plant, er na fydd hyn o bosibl yn fanwl nac yn cwmpasu'r ystodau oedran/amseroedd gweithredu/ystafelloedd gwahanol na'r meysydd y byddem yn eu hystyried mewn arolygiad llawn.
- 4.6. Rydym yn gwneud gwaith dilynol ar y wybodaeth a gawn, er enghraifft drwy archwilio cofnodion – gallai hyn gynnwys dogfennaeth gofal pobl, polisïau, hyfforddiant staff a staff. Byddwn yn arsylwi ar ymarfer ac unrhyw ffordd arall o

gefnogi'r plant i gyflawni'r canlyniadau, er enghraifft fel y nodir mewn cynllun datblygu.

- 4.7. Dim ond ar gyfer thema y dyfarnwyd gradd 'gwael' ar ei chyfer yn flaenorol yn yr arolygiad diwethaf y caiff graddau eu dyfarnu mewn arolygiadau â phwyslais penodol.
- 4.8. Cynhelir ein harolygiadau yn ddirybudd. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â gwarchodwyr plant a gwasanaethau chwarae mynediad agored dros y ffôn neu drwy e-bost wythnos ymlaen llaw fel arfer i gadarnhau amseroedd gweithredu ac argaeledd y gwarchodwr plant, er mwyn osgoi ymweliadau ofer. Diben yr alwad neu'r neges e-bost yw cadarnhau dyddiau ac amseroedd gweithredu'r lleoliad a chanfod ystod oedran y plant a fydd yn mynychu yn ystod wythnos yr arolygiad. Mewn achosion mwy prin, efallai y bydd angen i ni gynnal arolygiad o leoliadau eraill, ar fyr rybudd. Gall hyn fod o ganlyniad i ymweliad(au) a fethodd.
- 4.9. Bydd arolygwyr bob amser yn ystyried a oes unrhyw bryderon ynghylch briadau o achosion heintus, cyn mynd i mewn i'r lleoliad.
- 4.10. Lle bydd angen i ni gysylltu â lleoliad ond nad ydym wedi llwyddo i siarad â neb, byddwn yn ystyried a yw'r lleoliad yn weithredol.
- 4.11. Dylai pob lleoliad fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'w ddyddiau a/neu oriau gweithredu.
- 4.12. Lle mae pryderon wedi'u nodi ynghylch lleoliad, gall AGC ddewis arolygu unrhyw leoliad ar unrhyw adeg, ni waeth beth fo'r dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr arolygiad.

5. Sicrhau bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir

- 5.1. Byddwn yn sicrhau bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir fel rhan o'r gwaith paratoi cyn arolygiad. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r datganiad o ddiben diweddaraf sydd gennym a'i gymharu â'n manylion cofrestru sydd wedi'u cofnodi ar ein cronfa ddata a, lle y bo'n gymwys, holi Tŷ'r Cwmniau i weld a yw'r wybodaeth yn cyd-fynd â'n gwybodaeth ni.
- 5.2. Byddwn yn trafod unrhyw anghysondebau â'r darparwr cyn neu yn ystod yr ymweliad safle. Gall anghysondebau olygu, er enghraifft, newid endid cyfreithiol (**o unig fasnachwr i gwmni cyfyngedig**), perchenogaeth neu newidiadau i'r safle, na chawsom wybod amdanynt. Gall absenoldeb darparwr cofrestredig cyfreithlon effeithio ar y cofrestriad. Caiff anghysondebau cofrestru eu rhannu â'r tîm cofrestru a gorfodi er mwyn eu holrhain.

6. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

- 6.1. Bob blwyddyn, bydd disgwyl i'r darparwr gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), gan gynnwys yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae'r rhain yn ofynnol o dan Reoliadau 16 a 17 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.
- 6.2. Mae'r dogfennau hyn yn galluogi AGC i asesu safbwynt darparwyr am ansawdd eu lleoliad o ran pedair thema allweddol y fframwaith arolygu cyn arolygiad.
- 6.3. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod yn agored ac yn onest â ni, gan rannu'r holl wybodaeth briodol. Rydym yn gofyn i ddarparwyr gadarnhau bod y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn gyflawn ac yn gywir.
- 6.4. Os na chaiff yr SASS a'r adolygiad o ansawdd y gofal eu cwblhau ar gyfer lleoliad, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau gorfodi a bydd yn dylanwadu ar y radd a ddyfernir mewn perthynas ag Arwain a Rheoli'r lleoliad.

7. Egwyddorion arolygu

- 7.1. Caiff yr arolygiad ei lywio gan yr egwyddorion canlynol.

	Diffiniad o'r egwyddorion
Canolbwyntio ar y plentyn	bydd arolygwyr yn sicrhau bod y plant sy'n defnyddio lleoliadau rheoleiddiedig wrth wraidd eu gwaith, a byddant yn asesu lleoliadau gan ystyried y canlyniadau o ran diogelwch, llesiant a hawliau'r plant.
Cefnogi gwelliant	bydd arolygwyr yn llunio barn am leoliadau. Byddwn yn argymhell arferion da, yn nodi arferion gwael ac yn annog gwelliant mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.
Bod yn dryloyw	bydd arolygwyr yn agored am y wybodaeth a ddefnyddiwyd ganddynt i lywio eu harolygiadau, bydd adroddiadau yn glir ac yn hysbysu pobl am yr hyn y gallwn ei ddisgwyl gan leoliadau.
Bod yn deg ac yn ddiuedd	bydd arolygwyr yn seilio eu harolygiadau ar dystiolaeth; bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, siarad â phobl a gwybodaeth rydym yn ei darllen. Byddwn yn rhoi adborth prydlon i'r darparwr ar ein canfyddiadau, gan gynnwys cryfderau a meysydd y mae angen eu gwella. Byddwn yn rhoi'r cyfle i'r darparwr ymdrin ag unrhyw bryderon, rhoi rhagor o wybodaeth a chwestiynu unrhyw faterion nad ydynt yn gywir

Bod yn gadarn	bydd arolygwyr yn cymryd camau gweithredu cadarn ac amserol pan fydd lleoliadau'n darparu gofal gwael neu'n rhoi plant mewn perygl.
Bod yn gymesur	bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch, llesiant a hawliau plant. Byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi pan fyddwn yn gweld bod lleoliadau gofal plant a chwarae yn methu yn y meysydd hyn.
Bod yn gyson	bydd arolygwyr yn rhoi'r un egwyddorion ar waith ac yn defnyddio'r un dull gweithredu ar gyfer pob darparwr y byddwn yn ei arolygu.

8. Atal a Rheoli Heintiau

- 8.1. Bydd arolygwyr yn ystyried canllawiau AGC ar Egwyddorion Rheoli Heintiau, cyn dechrau'r arolygiad. Gall AGC gysylltu â'r darparwr i gael rhagor o wybodaeth am drefniadau'r lleoliad i atal heintiau a thystiolaeth ei fod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar reoli heintiau.

9. Y broses arolygu

- 9.1. Ar ddechrau arolygiad, bydd arolygwyr yn gwneud y canlynol:
- esbonio pwrpas yr arolygiad a thrafod rhaglen a chynllun amlinellol ar ei gyfer, gan ystyried yr effaith ar y lleoliad
 - gofyn am ddogfennau perthnasol gael eu darparu ar ddechrau'r arolygiad
 - gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt a gofyn am friff cyffredinol am iechyd a diogelwch
 - sicrhau bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
 - pennu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno canfyddiadau'r arolygiad, gan gynnwys graddau
- 9.2. Mae arolygu yn broses ymchwilio barhaus, gan gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth, dilyn themâu sy'n dod i'r amlwg a chwilio am gysylltiadau.
- 9.3. Y plant sy'n defnyddio lleoliadau sydd wrth wraidd ein harolygiadau. Er mwyn deall effaith y lleoliadau ar eu llesiant, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Byddwn yn siarad â nhw a'u rhieni / gofawyr am eu profiad o ofal, yn arsylwi ar y gofal y maent yn ei gael ac yn adolygu'r hyn y mae'r cofnodion yn ei ddweud wrthym am eu gofal.

9.4. Lle y bo'n briodol, byddwn yn defnyddio technoleg rithwir i wella ein harolygiadau ffisegol o leoliad. Mae AGC wedi datblygu canllawiau ar ddefnyddio technoleg rithwir yn ystod arolygiadau.

10. **Arsylwadau**

10.1. Adnodd arolygu yw SOFI (Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu) a ddefnyddir gan arolygwyr i lunio barn ynglŷn â sut beth yw bywyd i blant sy'n defnyddio lleoliadau. Fel rhan o'n gwaith arolygu, rydym yn ystyried llesiant plant sy'n defnyddio lleoliadau ac yn cadarnhau bod lleoliadau'n cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Rydym hefyd yn defnyddio dull arsylwi arbenigol pan nad yw'n bosibl i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ddisgrifio'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu cael, er enghraifft, plant ifanc.

11. **Diwylliant Sefydliadol**

11.1. Mae'n bwysig bod gan bob lleoliad ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol. Mae gwerthoedd, ymddygiadau ac agweddau'r bobl yn y lleoliad gofal plant yn llywio'r diwylliant sefydliadol. Gall diwylliant cadarnhaol ddylanwadu ar ymddygiadau ac effeithio ar ansawdd y gofal. Mae'r pwyntiau bwled isod yn nodi rhai llinellau ymholi y gall arolygwyr eu dilyn yn ystod arolygiad:

- arweinyddiaeth – byddwn yn siarad â'r staff a rhanddeiliaid am eu barn am yr arweinwyr. A yw'r arweinwyr yn agored, yn weladwy ac yn grymuso eraill? Byddwn yn ystyried holiaduron a gwblhawyd ar gyfer adolygiadau o ansawdd y gofal, os ydynt ar gael.
- llesiant y staff – byddwn yn siarad â'r staff i weld a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. A yw'r staff a'r rheolwyr yn cefnogi ei gilydd yn eu rolau? Er enghraifft, a oes trosiant uchel ymhlith y staff?
- yr amgylchedd – byddwn yn ystyried a oes gan y staff gyfleusterau i gadw eu heiddo, lle i ymlacio, cymryd seibiant a bwyta, ac ati.
- cyfathrebu – byddwn yn ystyried sut mae'r bobl yn siarad â'i gilydd. A oes cyfleoedd ar gyfer trafodaethau grŵp neu drafodaethau dwyffordd? A yw'r darparwr yn agored i gael adborth adeiladol?
- ystwythder – a yw'r darparwr yn cymryd camau prydlon i wneud newidiadau/gwelliannau? A yw'n mynd i'r afael â phryderon a godir gan y staff a chwynion?
- gweledigaeth – a oes gweledigaeth glir sy'n creu ymdeimlad o ddiben? A yw'r rhanddeiliaid yn ymwybodol o weledigaeth/nodau'r lleoliad? Sut mae'r bobl yn rhoi'r gwerthoedd sefydliadol ar waith?

12. Cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg

12.1. Ni fydd llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo'n hyderus yn gofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Mae darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' (sef mynd ati i ofyn i bobl am eu dewis iaith), a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg fel y nodir yn *Mwy na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg)*, yn hyrwyddo newid diwylliant. Dylai darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' fod wrth wraidd y gofal, a chyfrifoldeb y darparwr yw gwneud hynny.

- Diffiniad o leoliad sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'

'Mae'r lleoliad yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r lleoliad, neu a all ei ddefnyddio'

- Diffiniad o leoliad sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'

'Mae'r lleoliad yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.'

- Diffiniad o leoliad nad yw'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'

'Nid yw'r lleoliad hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r lleoliad, neu sy'n bwriadu gwneud hynny.'

12.2. Bydd yr arolygydd yn cofnodi'r canfyddiadau yn thema/themâu mwyaf priodol yr adroddiad arolygu er mwyn dangos sut y gwnaeth ei benderfyniad.

12.3. Dylai'r arolygydd gyfeirio'r darparwr at ddogfen Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau: Fframwaith strategol olynol ar gyfer Lleoliadau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'.

12.4. Pan fydd tystiolaeth bod diffyg 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn achosi canlyniadau gwael neu risgiau diangen i'r bobl, bydd yr arolygydd yn cofnodi hyn yn yr adroddiad ac yn ystyried a yw hyn yn achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ar ran y lleoliad.

13. Sgoriau Hylendid Bwyd

13.1. Bydd pob arolygiad llawn a drefnir gennym yn ystyried, lle y bo'n berthnasol, y sgôr hylendid bwyd a ddyfarnwyd i'r darparwr gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn ogystal, bydd yr arolygydd yn ystyried a yw darparwr yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant. Mae unrhyw leoliad y dyfernir 1 neu lai iddo yn debygol o fod yn destun arolygiad gan AGC.

14. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

14.1. Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen i AGC gynghori lleoliad i wneud atgyfeiriad at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan RIDDOR. (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus).

15. Sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn

15.1. Mae AGC yn defnyddio 'triongli' i sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn. Bydd yr arolygydd yn ystyried ffynonellau amrywiol o dystiolaeth yn ystod yr arolygiad. Bydd y dystiolaeth yn helpu'r arolygydd i ddeall mwy am ansawdd a diogelwch lleoliadau i blant. Un enghraifft o driongli yw edrych ar fwydlenni, siarad â'r staff a'r plant am ansawdd prydau ac arsylwi ar amser cinio. Gall yr arolygydd ystyried mathau gwahanol o dystiolaeth, i'w helpu i lunio barn am ansawdd y prydau a gynigir.

16. Egwyddorion sicrhau gwelliant a gorfodi

16.1. Rydym yn defnyddio ein pwerau sicrhau gwelliant a gorfodi i hyrwyddo ein hamcan craidd, sef gwella ansawdd a diogelwch lleoliadau er lles pobl Cymru. Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n penderfyniadau ar orfodi:

- **cyfrifoldeb:** Y darparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoliadol. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr unioni methiannau a gwella gwasanaethau
- **cymesuredd:** Rydym yn cymryd camau sy'n gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau a'r risgiau i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a gallu ac adnoddau'r darparwr i ymateb. Bydd darparwyr sy'n methu â bodloni'r rheoliadau yn gyson yn wynebu camau gorfodi uwch, gan gynnwys canslo eu cofrestriad o bosibl
- **effeithlon ac effeithiol:** Rydym yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'n dull gorfodi a'r ffordd rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi. Mae unrhyw gamau a gymerir gennym yn glir, yn gyson, yn amserol, yn deg ac yn gymesur
- **rhannu gwybodaeth** Rydym yn gweithio gyda chomisiynwyr, rheoleiddwyr ac asiantaethau a chyrff proffesiynol perthnasol eraill i rannu gwybodaeth am wasanaeth er mwyn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yn effeithiol. Wrth brosesu a rhannu gwybodaeth, rydym yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol
- **cymryd camau cydgysylltiedig:** Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi wedi'u cydgysylltu. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pryderon am ddiogelu neu faterion iechyd a diogelwch a lywodraethir gan reoleiddwyr eraill.

- **cynnal hawliau unigolion:** Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Pan fydd y gofal yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

16.2. Mae sicrhau gwelliant a gorfodi yn rhan graidd o'n gwaith fel rheoleiddiwr.

Rydym yn targedu meysydd i'w gwella ac yn cymryd camau gorfodi sy'n lleihau'r risg i'r bobl sy'n defnyddio lleoliadau ac sy'n dwyn darparwyr i gyfrif am unrhyw fethiannau o ran y lleoliad.

16.3. Lle y bo'n briodol, rydym yn defnyddio dull graddedig o sicrhau gwelliant yn unol â'n gweithdrefnau gorfodi. Pan fydd gennym bryderon neu pan fyddwn wedi nodi achos o ddiffyg cydymffurfio, rydym yn cymryd camau i sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, pan fyddwn yn nodi achosion difrifol, lluosog neu gyson o ddiffyg cydymffurfio, gallwn arfer ein pwerau i gyfyngu ar y ddarpariaeth y gall darparwr ei chynnig neu, yn y pen draw, atal y darparwr rhag gweithredu yn gyfan gwbl.

17. **Adborth yn ystod yr arolygiad a'r adroddiad arolygu**

17.1. Ar ddiwedd ymweliad safle, byddwn yn rhoi adborth **cychwynnol** i'r rhai sy'n gyfrifol am y lleoliad ar y dydd, neu'n trefnu cyfathrebu â'r person

cofrestredig/unigolyn cyfrifol ar adeg sy'n gyfleus i bawb lle y bo angen. Efallai y bydd angen i ni esbonio bod angen i ni gwblhau dadansoddiad priodol o'r wybodaeth a gasglwyd a'n bod o bosibl yn aros am ragor o wybodaeth cyn dod i unrhyw gasgliadau.

17.2. Byddwn yn nodi'r adborth, ond ni fyddwn yn gadael unrhyw adroddiad ysgrifenedig nac yn gofyn i unrhyw un lofnodi ein nodyn ynghylch yr adborth.

Mae rhoi adborth yn gyfle pwysig i archwilio a phrofi'r dystiolaeth rydym yn dibynnu arni yn yr adroddiad. Dylid dilyn egwyddor "dim byd annisgwyl". Byddwn yn trafod unrhyw bryderon neu feysydd o ddiffyg cydymffurfio posibl ar ddiwedd yr arolygiad.

17.3. Byddwn yn gofyn am farn y person â chyfrifoldeb/darparwr am degwch yr arolygiad a'r ffordd y cafodd ei gynnal ar ôl cael yr adborth, a'i chofnodi, yn ogystal â darparu ffurflen adborth er mwyn iddo roi sylwadau ar yr arolygiad.

17.4. Os na fydd lleoliad wedi bodloni gofynion y rheoliadau a'n bod yn bwriadu cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth neu gymryd camau gorfodi eraill, byddwn yn hysbysu'r darparwr.

17.5. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein hadroddiadau arolygu yn deg a bod ein canfyddiadau wedi'u seilio ar waith i driongli'r dystiolaeth a gasglwyd. Felly, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, rydym yn derbyn hawl darparwyr i ymateb i'n hadroddiadau ac i wneud sylwadau ar ein canfyddiadau. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ni gywiro unrhyw wallau ac ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol cyn i'r adroddiad arolygu gael ei ryddhau'n gyhoeddus.

18. Yr adroddiad arolygu

- 18.1. Profiadau'r plant mewn lleoliadau sydd wrth wraidd ein hadroddiadau, gan gynnwys yr effaith ar eu llesiant. Er bod darparwyr a gweithwyr proffesiynol yn darllen ein hadroddiadau, **cânt eu hysgrifennu ar gyfer y cyhoedd**. Mae hyn yn galluogi'r rhai sy'n defnyddio ac yn dewis lleoliadau i ddeall ansawdd y gofal plant a chwarae a ddarperir.
- 18.2. Rydym yn seilio'r adroddiad arolygu ar y dystiolaeth a gesglir cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad arolygu. Rydym yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth i ategu'r canfyddiadau yn yr adroddiad. Rhoddir ystyriaeth i'r hyn a ddywedir, yr hyn a welir a'r hyn a ddarllenir er mwyn llywio ein canfyddiadau, ein dyfarniadau cyffredinol a'r graddau a ddyfernir.
- 18.3 Mae gwybodaeth am sut rydym yn cyhoeddi'r adroddiad arolygu i'w gweld yn ein polisi (add link). Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, rydym yn derbyn bod hawl gan Bersonau Cofrestredig, Unigolion Cyfrifol neu unigolion perthnasol i ofyn cwestiynau ynghylch ein hadroddiadau pan fyddant o'r farn eu bod yn anghywir neu nad ydynt wedi ystyried tystiolaeth bwysig. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ni gywiro unrhyw wallau ac ystyried gwybodaeth ychwanegol cyn i'r adroddiad arolygu gael ei ryddhau'n gyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon i'w gweld yn ein [polisi](#) ymateb i adroddiadau arolygu.

19. Diogelu

- 19.1. Mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion. Mae cyfrifoldeb ar bob unigolyn a sefydliad sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol neu ofal plant i helpu i'w cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu effeithiol yn seiliedig ar gyfathrebu da. Os bydd gan **unrhyw berson** wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn neu oedolyn yn dioddef, ei fod wedi dioddef neu ei fod yn debygol o wynebu risg o gamdriniaeth, mae cyfrifoldeb arno i sicrhau y rhoddir gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am y pryderon hynny.
- 19.2. Mae ein dyletswyddau statudol yn cynnwys amddiffyn a hybu iechyd, diogelwch a llesiant plant sy'n defnyddio gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod darparwyr a'r bobl sy'n gweithio iddynt yn creu, yn gweithredu ac yn cynnal amgylcheddau, systemau a phrosesau lle y caiff risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant plant eu hatal neu eu nodi'n effeithiol ac y cymerir camau prydlon i fynd i'r afael â nhw.
- 19.3. Byddwn yn ystyried pa mor dda y caiff gwasanaethau eu darparu ac a yw rheolwyr wedi creu diwylliant o wyliadwriaeth lle y caiff llesiant plant ei hybu a chamau diogelu priodol ac amserol eu cymryd pan fydd plant o bosibl yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

19.4. Pan fydd pryderon ynghylch diogelu yn codi yn ystod arolygiad, byddwn yn cymryd camau i atgyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol neu fodloni ein hunain bod atgyfeiriadau priodol wedi'u gwneud. Gall pryderon penodol gynnwys esgeulustod neu oedi cyn trosglwyddo pryderon am blentyn sy'n dioddef niwed sylweddol neu mewn perygl o hynny, i'r asiantaethau perthnasol. Nid rôl yr arolygydd yw ymchwilio i bryder yn ymwneud ag amddiffyn plant na honiad yn erbyn aelod o'r staff.

20. **Cyfrifoldebau darparwyr o ran diogelu**

20.1. O fewn y fframweithiau rheoleiddio, mae cyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau o ran diogelu yn glir, sef;

- rhoi systemau, prosesau, polisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant ar waith a'u defnyddio'n effeithiol er mwyn helpu i sicrhau y caiff plant sy'n defnyddio gwasanaethau eu diogelu rhag achosion gwirioneddol o gam-drin ac esgeuluso neu'r risg ohonynt
- cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol a dderbynnir ar gymwyseddau staff yn unol â'u rôl
- bod yn ymwybodol o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) ac ystyr cydsyniad
- darparu lefelau ac ansawdd gwasanaeth sy'n bodloni holl ofynion y fframwaith rheoleiddio diogelu perthnasol ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ganddynt
- ymdrin ag unrhyw ddiffygion a geir o ran arferion diogelu yn eu gwasanaeth er mwyn helpu i leihau'r risgiau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- dysgu o unrhyw ddigwyddiad diogelu a rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith er mwyn helpu i atgyfnerthu trefniadau diogelu yn y dyfodol
- atgyfeirio achosion o gam-drin neu achosion posibl o gam-drin at dimau diogelu awdurdodau lleol
- hysbysu AGC am ddigwyddiadau diogelu yn unol â rheoliadau drwy gwblhau hysbysiad statudol ar yr adeg y caiff yr achos o gam-drin ei nodi
- cydweithredu ag ymholiadau diogelu

20.2. Byddwn bob amser yn ystyried:

- polisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant y lleoliad
- amgylchiadau lle y caiff aelod o'r staff ei atal dros dro ac y mae ymchwiliad diogelu yn mynd rhagddo

- methiant i ddilyn gofynion statudol neu weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer delio â honiadau yn erbyn staff
- methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio aelod o'r staff sydd wedi niweidio, neu a allai niweidio, plentyn i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

20.3. Caiff y canllawiau statudol canlynol eu hystyried hefyd:

- Canllawiau ar y **ddyletswydd atal** i Gymru a Lloegr: canllawiau ar gyfer awdurdodau penodedig yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd ysgolion a darparwyr eraill, o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, i roi ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.

21. **Rhestr o ddogfennau y mae'n debygol y bydd eu hangen at ddibenion arolygu**

21.1. Cofnodion y gallwn eu hystyried:

- cofnodion unigol y plant
- datganiad o ddiben(bwrpas)
- rhestrau staff (ymarferwyr), gan gynnwys manylion cymwysterau a gwybodaeth am drefniadau goruchwyllo, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus y staff a gweithdrefnau a chofnodion recriwtio staff
- cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n crynhoi'r gwiriadau ar gyfer pob aelod o staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio yn y lleoliad a'r trefniadau fetio a chyflogaeth (dim ond y ddogfennaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr a gyflogwyd ers yr arolygiad diwethaf y byddem yn disgwyl i chi edrych arnynt)
- yn achos lleoliad gwarchod plant, cofnodion o wiriadau ar gyfer pobl dros 16 oed sy'n byw neu'n gweithio yn y lleoliad neu'r rhai sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phlant sy'n derbyn gofal
- asesiadau risg
- tystysgrifau diogelwch
- polisïau a gweithdrefnau
- samplau o waith cynllunio gweithgareddau
- enghreifftiau o waith y plant a thystiolaeth o gynnydd unigol
- gwybodaeth asesu, yn arbennig asesiadau a gynhelir pan fydd plant yn cyrraedd neu'n gadael y lleoliad, mewn perthynas â'u cynnydd

- cofrestrau presenoldeb y plant, y staff a gwirfoddolwyr
- cofnodion damweiniau/digwyddiadau/meddyginiaeth
- rhestr o unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed i'r awdurdod lleol
- cofnodion unrhyw gwynion
- gwybodaeth am sut y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn
- unrhyw wybodaeth sy'n dangos bod y lleoliad yn gwneud defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned
- gwybodaeth am bartneriaethau
- y cyfrifon diweddaraf a archwiliwyd, lle mae pryderon am gyllid, er enghraifft
- unrhyw adroddiadau ar werthusiadau allanol o'r lleoliad, e.e. iechyd yr amgylchedd
- unrhyw wybodaeth arall y mae'r lleoliad yn dymuno iddi gael ei hystyried.

22. Graddau

22.1. Nid ydym yn dyfarnu gradd gyffredinol mewn arolygiad llawn o'r lleoliad. Rydym yn dyfarnu gradd ar gyfer pob un o'r pedair thema arolygu. Caiff gradd pedwar pwynt ei chymhwyso ar gyfer pob thema.

22.2. Ein dyletswydd reoleiddio a'r angen i gynnig sicrwydd i'r cyhoedd yw'r cam cyntaf wrth gyflawni ein dyletswydd reoleiddio. Ar gyfer pob thema, byddwn yn ystyried a yw'r lleoliad yn darparu gofal diogel a rhesymol yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

22.3. Os felly, yna mae'r lleoliad wedi croesi'r trothwy a gellir dyfarnu gradd **ddigonol** o leiaf iddo.

22.4. I'r gwrthwyneb, os ystyrir bod y lleoliad yn darparu gofal anniogel, sy'n rhoi'r plant mewn perygl neu'n arwain at ganlyniadau gwael, yna rhaid dyfarnu gradd **wael**. Mewn achosion o'r fath, bydd AGC yn cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

22.5. Yr ail gam yw cydnabod ansawdd. Mae ein canllawiau ar raddau yn nodi'n glir nodweddion posibl "da" ar draws y themâu a'r meysydd i'w harolygu. Pan fydd lleoliad wedi croesi'r trothwy "digonol", byddwn yn ystyried a yw'r lleoliad yn perfformio ar lefel y gellir ei hystyried yn dda. Er mwyn i leoliad gyflawni gradd "da", mae'n rhaid bod cyfran uchel o feysydd lle ceir cryfderau h.y. mae'r lleoliad yn perfformio ar lefel sy'n cyfateb i'n disgrifyddion o ran nodweddion da.

22.6. Mae'r tabl isod yn nodi'r graddau.

Rhagorol:	Lleoliadau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant y plant.
Da:	Dyma leoliadau sydd â chryfderau heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol:	Lleoliadau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i'r plant.
Gwael:	Lleoliadau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar lesiant y plant. Pan fydd lleoliadau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn unol â'n polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi.

22.7. Mae'r tabl isod yn nodi'r canrannau sy'n ofynnol i gael canlyniadau cadarnhaol. Gall arolygwyr ddefnyddio'r grid canlynol i fynegi i ba raddau y caiff canlyniadau cadarnhaol eu cyflawni i'r plant.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner	50%

Tua hanner	yn agos i 50%
Lleiafrif	llai na 40%
Nifer bach	llai nag 20%
Nifer bach iawn	llai na 10%.

Graddau

Llesiant

I ba raddau y mae gan y plant lais: Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r plant: yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau; yn cael rhywun i wrando arnynt a bod pob ymdrech i gyfathrebu'n cael ei werthfawrogi; yn cael eu hannog i siarad a mynegi eu hunain; yn mynegi eu barn ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau; yn cyfrannu at syniadau ar gyfer themâu a phynciau.

I ba raddau y mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi? Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r plant: wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni; yn meithrin cydberthnasau emosiynol cadarnhaol ac yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac yn gartrefol; yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hawliau'n cael eu parchu; yn meithrin cydberthnasau agos â'r ymarferwyr/gofalwyr sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n rhoi gofal cyson iddynt sy'n magu eu hyder a'u hunan-barch; yn meithrin cyfeillgarwch; yn gwybod â phwy y gallant siarad os byddant yn anhapus neu'n pryderu am rywbeth; yn hyderus y caiff eu teimladau, eu hoff bethau a'u cas bethau a'u pryderon eu hystyried. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn hunanhyderus ac nid ydynt yn dibynnu ar gael cyfarwyddyd gan oedolion.

Pa mor dda y mae'r plant yn rhyngweithio? Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r plant: yn wydn ac yn gallu ymdopi. Mae'r plant iau yn dechrau deall eu teimladau ac yn datblygu i fod yn sensitif i eraill. Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu ac mae'r plant iau yn dechrau datblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Mae'r plant hŷn yn hunanddisgybledig ac yn nodi ac yn cydymffurfio â rheolau ynglŷn ag ymddygiad derbyniol.

I ba raddau y mae'r plant yn mwynhau chwarae a dysgu? Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r plant: yn ddysgwyr egniol a chwilfrydig; yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, yn dangos diddordeb a chyffro; yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgaredd am gyfnod priodol o amser; yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau; yn cael ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn y maent yn ei wneud; yn mwynhau gweithgareddau chwarae rhydd a hamdden a drefnir

Bydd arolygwyr yn cynnal arsylwad SOF12 er mwyn nodi sut mae'r plant yn profi bywyd yn y lleoliad.

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn	Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried	Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus yn aml am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar y cyfan	Nid yw'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan mai prin y caiff eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried
Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt	Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt	Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt	Prin yw'r cyfleoedd a gaiff y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt
Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae'r staff yn gweithredu arnynt ac yn eu hadolygu'n barhaus	Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff yn gweithredu arnynt	Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu hystyried	Prin yr ystyrir safbwyntiau a diddordebau'r plant
Mae'r plant yn ymdopi'n eithriadol o dda â bod ar wahân am fod cyfnodau pontio dyddiol effeithlon yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol	Mae'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân am fod cyfnodau pontio dyddiol cyson yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol	Mae'r plant yn ymdopi â bod ar wahân am fod cyfnodau pontio dyddiol priodol yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol ar y cyfan	Mae bod ar wahân yn anodd i'r plant am fod cyfnodau pontio dyddiol yn anhrefnus

yn llawn ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol			ac mae diffyg cefnogaeth iddynt
Mae'r plant wrth eu bodd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan feithrin cydberthnasau cryf, ac maent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol	Mae'r plant yn egniol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan feithrin cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol	Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan ddechrau meithrin cyfeillgarwch, ac maent yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol	Mae'r plant yn ymddangos yn anhapus ac yn ansicr. Nid oes ganddynt ymdeimlad o berthyn, ychydig iawn o'r plant sy'n meithrin cydberthnasau newydd ac nid ydynt yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol
Mae teimladau, hoff bethau a chas bethau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n fawr am eu bod wedi meithrin cydberthnasau cryf iawn	Mae teimladau, hoff a chas bethau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod am eu bod wedi meithrin cydberthnasau/cysylltiadau da	Mae teimladau, hoff bethau a chas bethau ac anghenion y plant yn cael eu cydnabod ar y cyfan wrth iddynt feithrin cydberthnasau/cysylltiadau	Nid yw teimladau, hoff bethau a chas bethau nac anghenion y plant bob amser yn cael eu nodi a'u cydnabod
Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn teimlo'n ysbrydoledig ac yn llawn cymhelliad	Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan	Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol ac mae rhai plant yn cydweithredu ac yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan ar y cyfan	Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn negyddol, nid yw'r plant yn cydweithredu, ac nid ydynt yn dangos diddordeb ac maent yn aflonyddgar

Mae'r plant yn mynegi empathi amlwg ac maent yn sensitif i anghenion eraill	Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill	Mae'r plant yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion pobl eraill	Nid yw'r plant yn dangos empathi ac nid ydynt yn sensitif i anghenion eraill
Mae'r plant yn llwyr ymroi ac yn dangos parch at eiddo a phobl yn gyson. Maent yn chwarae rhan weithredol yn y broses o benderfynu a dilyn y rheolau sy'n effeithio ar eraill	Mae'r plant yn ymroi ac yn dangos parch at eiddo a phobl. Maent yn chwarae rhan yn y broses o benderfynu a dilyn y rheolau sy'n effeithio ar eraill	Mae'r plant yn ymroi ar y cyfan ac yn dangos parch at eiddo a phobl. Maent yn dilyn y rheolau sy'n effeithio ar eraill	Mae'r plant wedi ymddieithrio ac yn dangos diffyg parch at eiddo a phobl. Nid ydynt yn dilyn y rheolau sy'n effeithio ar eraill
Mae'r plant yn llawn cymhelliant, yn fywiog ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau cyfleoedd diddorol ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored gydag awch, a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel	Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel	Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel	Nid yw'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae na'u dysgu nac yn ymroi iddynt. Ni chynigir cyfleoedd priodol nac ysgogol iddynt, dan do nac yn yr awyr agored, ac ni allant ddewis ymlacio na chael cyfnodau tawel
Mae'r plant yn cael cryn ryddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Mae'r plant yn cael rhyddid weithiau i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Nid yw'r plant yn cael rhyddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel

Mae'r plant yn dangos hunangymhelliad i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod y gweithgareddau yn bennaf yn rhai a arweinir gan y plant	Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan y plant a'r rhai a arweinir gan oedolion	Gadewir i'r plant ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau weithiau am eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan y plant a'r oedolion	Anaml iawn y gadewir i'r plant ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod y gweithgareddau yn bennaf yn rhai a arweinir gan oedolion
Mae'r plant yn dilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain yn gyson	Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain	Mae'r plant weithiau yn gallu dilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain	Nid yw'r plant yn cael eu cefnogi i ddilyn eu greddfau, eu syniadau na'u diddordebau eu hunain
Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad gwych o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad	Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad	Mae'r plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad rhesymol o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Maent yn fodlon dangos neu siarad am	Nid yw'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad o gyflawni dim a diffyg hunan-barch. Dim ond rhai o'r plant sy'n awyddus i ddangos neu

am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud
Mae'r plant yn cael cyfleoedd arloesol sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain gyda hyder ac awch	Mae'r plant yn cael cyfleoedd diddorol sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus	Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain	Nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol nac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain
Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau yn effeithiol, datblygu'n greadigol, er mwyn arbrofi a bod yn ddychmygus	Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau yn dda, er mwyn datblygu'n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygus	Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygus	Prin yw'r cyfleoedd a gaiff y plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac nid ydynt yn cael eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain na datrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi na bod yn ddychmygus
Daw o SSTEWS			

Mae'r plant yn cael eu hannog i gynllunio eu dysgu eu hunain	Mae'r plant yn cael eu cefnogi i feddwl am yr hyn maent yn ei wneud	Mae'r plant yn cael eu cefnogi i feddwl yn feirniadol, gan ddefnyddio adnoddau a osodwyd a sesiynau a arweinir gan ymarferwyr megis dilyniannu, cymharu, gwrthgyferbynnu a datrys problemau	Nid yw'r plant yn cael cymorth yn seiliedig ar gynllunio, er mwyn ymestyn sgiliau meddwl a datblygu cysyniadau plant
Mae'r plant yn cael eu hannog i werthuso eu gweithgareddau a'u chwarae	Mae'r plant yn cael profiad o gwestiynau agored a chaeedig syml	Mae'r plant yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i'w cwestiynau, pan fyddant yn gofyn am gymorth	Nid yw'r plant yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain
Mae'r plant yn cael cyfleoedd, drwy gynllunio, i ddatblygu cysyniadau y maent wedi'u harchwilio'n flaenorol	Mae'r plant yn cael eu cefnogi i ymestyn eu gallu i feddwl a datrys problemau drwy weithgareddau a chwestiynau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu a gynlluniwyd		

Mae'r plant yn cael eu cefnogi i weld y cysylltiad rhwng y cysyniadau y maent yn eu harchwilio a bywyd go iawn a'u profiadau e.e. drwy ymweliadau, lluniau, trafodaeth gyda rhieni / gofalwyr

Gofal a Datblygiad

Pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach? Bydd arolygwyr yn llunio barn ar ba mor dda y mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hybu llesiant y plant yn cael eu rhoi ar waith. Yn eu plith mae'r canlynol: y polisi diogelu plant, iechyd a diogelwch gan gynnwys hylendid bwyd a darpariaeth ar gyfer rheoli haint, diogelwch tân, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, rhoi meddyginiaeth yn ddiogel, cefnogi plant â chyflyrau meddygol, rhoi cymorth cyntaf, diogelwch ar deithiau allan ac ymweliadau, diogelwch ar y rhyngrwyd, bwlio, rheoli ymddygiad plant gan gynnwys ymyrraeth ac atal corfforol.

Diogelu plant: Wrth ystyried pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau diogelu plant, bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r risgiau i blant yn cael eu nodi; a yw arwyddion a symptomau cam-drin yn cael eu hadnabod a'u deall ac a yw polisi diogelu plant y lleoliad yn cael ei roi ar waith yn gywir.

Pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio? Bydd arolygwyr yn ystyried y canlynol: a yw'r ymarferwyr yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad, a ydynt yn gyson o ran eu dull gweithredu, gan roi sylw i blant unigol, fel nad yw'r plant yn ansicr o'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, maent yn gosod ffiniau realistig ac yn defnyddio cosbau priodol gan ystyried cam datblygu'r plentyn, maent yn annog plant hŷn i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain, maent yn modelu ymddygiad da.

Pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol? Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr yn gwneud y canlynol: darparu awyrgylch/amgylchedd gofalgar sy'n meithrin y plant ac yn rhoi gofal ymatebol, gwybod, deall a diwallu/bodloni anghenion/galluoedd unigol, hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a thrin pob plentyn ag urddas a pharch, hyrwyddo datblygiad pob plentyn drwy gynllunio amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae, dysgu a hamdden, rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith, olrhain cynnydd plant a defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf o ran eu chwarae a'u dysgu, A all y plant hŷn benderfynu ar gynnwys eu chwarae a'i reoli drwy ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain?

Bydd arolygwyr yn ystyried y canlynol: i ba raddau y mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd i blant ag anghenion ychwanegol ddefnyddio pob ardal ddysgu, pa mor gyson y mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y plant, a yw'r ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, a yw grwpiau a systemau cymorth yn diwallu'r amrywiaeth o anghenion

heb amharu ar rychwant, cydbwysedd na pharhad chwarae a dysgu'r plant, pa mor dda y mae'r lleoliad yn integreiddio ac yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac yn darparu ar eu cyfer, er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd, ansawdd y cymorth i blant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, ansawdd y cymorth i blant ag anawsterau lleferydd ac iaith, pa mor gyson y mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y plant, a yw ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, y defnydd a wneir o wasanaethau arbenigol megis lleoliadau iechyd, seicolegol a chymdeithasol a chyfraniad y lleoliadau hynny.

Bydd arolygwyr yn cynnal arsylwad SOF12 er mwyn nodi sut mae'r plant yn profi bywyd yn y lleoliad.

Y Raddfa Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol ar gyfer plant 2- 5 oed - Asesu dysgu ac iaith. Defnyddio asesiad er mwyn cefnogi ac ymestyn dysgu a meddwl yn feirniadol (Denise Kingston, yr Athro Iram Siraj a'r Athro Ted Melhuish)

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae bron pob ymarferydd yn deall y polisiâu yn llawn ac yn eu rhoi ar waith yn gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall y polisiâu a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith.	Mae llawer o'r ymarferwyr yn datblygu eu dealltwriaeth, ac yn mynd ati i weithredu polisiâu a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol.	Prin yw'r ymarferwyr sy'n deall y polisiâu a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, neu'n eu rhoi ar waith.
Mae bron pob ymarferydd yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol ac yn effeithiol	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn mynd ati i'w rheoli	Mae llawer o'r ymarferwyr yn dechrau deall sut i nodi a rheoli risgiau	Prin yw'r ymarferwyr sy'n nodi ac yn rheoli risgiau'n briodol

Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn eithriadol o dda am fod yr ymarferwyr yn ymateb/rhyngweithio mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon. Mae iaith eu cartref yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo	Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am fod yr ymarferwyr yn ymateb/rhyngweithio mewn ffordd gyson. Mae iaith eu cartref yn cael ei hyrwyddo	Mae llawer o'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain am fod yr ymarferwyr yn ymateb/rhyngweithio mewn ffordd briodol. Mae iaith eu cartref yn cael ei chydabod	Prin yw'r plant sy'n siarad neu'n mynegi eu hunain am fod yr ymatebwyr yn ymateb/rhyngweithio mewn ffordd aneffeithiol. Nid yw iaith eu cartref yn cael ei chydabod
Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae bron pob ymarferydd yn deall ei gyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl	Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl yn dda iawn	Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae llawer o'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant	Ni roddir blaenoriaeth i ddiogelu ac nid yw'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant
Mae bron pob ymarferydd yn gweithredu arferion glanhau a hylendid cadarn a rhagorol	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da	Mae llawer o'r ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau a hylendid priodol	Nid yw'r ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau effeithiol na hylendid da
Mae bron pob ymarferydd yn deall ac yn gweithredu canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ac yn gweithio tuag at fynd ati i'w rhoi ar waith	Mae llawer o'r ymarferwyr yn deall prif themâu canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant ac yn gweithio'n rhannol yn unol â nhw	Nid yw'r ymarferwyr yn deall canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant nac wedi eu rhoi ar waith
Mae bron pob ymarferydd yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi	Mae llawer o'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli	Nid yw'r ymarferwyr yn deall y polisi ynglŷn â rheoli ymddygiad nac yn rhoi

strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith mewn ffordd gyson	strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith mewn ffordd gyson	ymddygiad cadarnhaol ar waith ar y cyfan	strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith
Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth a gwybodaeth ragorol am ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Maent bob amser yn gweithredu fel modelau rôl da iawn.	Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Maent bob amser yn gweithredu fel modelau rôl da.	Mae gan lawer o'r ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Maent yn gweithredu fel modelau rôl da y rhan fwyaf o'r amser	Nid oes gan yr ymarferwyr ddigon o wybodaeth am ddatblygiad plant na'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Nid ydynt bob amser yn gweithredu fel modelau rôl da
Mae bron pob ymarferydd yn rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn olrhain cynnydd y plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn chwarae a dysgu'r plant	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn olrhain cynnydd y plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn chwarae a dysgu'r plant	Mae llawer o'r ymarferwyr yn rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn olrhain cynnydd y plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn chwarae a dysgu'r plant	Nid yw'r ymarferwyr yn rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn olrhain cynnydd y plant nac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn chwarae a dysgu'r plant
Mae bron pob ymarferydd yn ymateb yn gyson; maent yn gwranddo'n astud ar farn y plant ac yn ei pharchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol iawn gan ddangos cynhesrwydd a	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn ymateb yn gyson; maent yn gwranddo ar farn y plant ac yn ei pharchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol gan ddangos cynhesrwydd a	Mae llawer o'r ymarferwyr yn ymateb; maent yn gwranddo ar farn y plant ac yn ei pharchu. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae llawer o'r	Nid yw'r ymarferwyr yn ymateb yn gyson. Mae'r rhyngweithio'n niwtral neu'n wael ac nid yw'r ymarferwyr yn dangos fawr ddim parch, sensitifrwydd na

charedigrwydd. Mae bron pob ymarferydd yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol	charedigrwydd. Mae bron pob ymarferydd yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol	ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant	chynhesrwydd tuag at y plant
Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac mae'n hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn o dan CCUHP	Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant o dan CCUHP	Mae gan lawer o'r ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant o dan CCUHP	Prin yw'r ymarferwyr sydd â dealltwriaeth o faterion amrywiaeth ac nid ydynt yn hyrwyddo hawliau'r plant o dan CCUHP
Mae bron pob ymarferydd yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth ragorol o weithgareddau chwarae a dysgu	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu	Mae llawer o'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu	Prin yw'r ymarferwyr sy'n deall ac yn hyrwyddo gweithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i oedran y plant
Mae bron pob ymarferydd yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn gyson. Maent yn rhoi gwybodaeth lawn i rieni	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn gyson. Maent yn rhoi gwybodaeth i rieni	Mae llawer o'r ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio'n eithaf da ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd. Ar y cyfan, maent yn rhoi gwybodaeth i rieni	Prin yw'r ymarferwyr sy'n ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac nid ydynt yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf. Nid ydynt yn rhoi gwybodaeth i rieni
Mae bron pob ymarferydd yn cyfrannu at waith cynllunio sy'n dangos dilyniant, sy'n cefnogi anghenion unigol pob	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn cyfrannu at waith cynllunio sy'n dangos dilyniant, sy'n cefnogi	Mae llawer o'r ymarferwyr yn cyfrannu at waith cynllunio sy'n dangos dilyniant, sy'n cefnogi anghenion unigol pob	Prin yw'r ymarferwyr sy'n cynllunio ac yn adolygu'n effeithiol i gefnogi anghenion unigol pob oedran. Prin yw'r

oedran yn sylweddol. Mae pob ymarferydd yn gwybod pan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau cymorth	anghenion unigol pob oedran yn effeithiol. Mae bron pob ymarferydd yn gwybod pan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl. Maent yn cymryd camau priodol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd da o'r gwasanaethau cymorth	oedran yn ddigonol. Mae llawer o'r ymarferwyr yn gwybod pan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl. Maent yn cymryd camau priodol ac yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth	ymarferwyr sy'n gwybod pan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl.
Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal, ac yn darparu ar eu cyfer	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal, ac yn darparu ar eu cyfer	Mae llawer o'r ymarferwyr yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal, ac yn darparu ar eu cyfer	Nid yw'r ymarferwyr yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau lleferydd ac iaith, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal, nac yn darparu ar eu cyfer
Mae bron pob ymarferydd yn helpu'r plant i greu lle y gallant chwarae ynddo a rhoi egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith	Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn helpu'r plant i greu lle y gallant chwarae ynddo a rhoi egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith	Mae llawer o'r ymarferwyr yn helpu'r plant i greu lle y gallant chwarae ynddo a rhoi egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith	Nid yw'r ymarferwyr yn helpu'r plant i greu lle y gallant chwarae ynddo. Nid ydynt yn rhoi egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith.
Daw o SSTEWS			
Mae'r ymarferwyr yn rhoi adborth i'r plant, yn gofyn	Mae'r ymarferwyr yn asesu er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol, cynllunio	Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant, gan gysylltu â'u datblygiad parhaus	Mae'r ymarferwyr ond yn asesu er mwyn dangos

cwestiynau penagored, ac yn gwneud awgrymiadau	gweithgareddau a arweinir gan ymarferwyr a deunyddiau / adnoddau o fewn yr amgylchedd		diwedd cyfnod neu gynnydd gweithgarwch
Mae'r ymarferwyr yn tynnu sylw at lwyddiannau ac anawsterau, heb farnu. Mae'r ymarferwyr yn rhoi adborth sy'n annog agweddau meddwl cadarnhaol tuag at ddysgu megis dyfalbarhad, canolbwyntio a chwblhau	Mae'r ymarferwyr yn rhannu amcanion dysgu syml â'r plant yn ystod gweithgareddau a gefnogir gan ymarferwyr ac yn cadarnhau bod y rhain yn cael eu cyflawni	Mae'r ymarferwyr yn asesu er mwyn dangos cynnydd i'r rhieni / gofawyr a chefnogi cyfnodau pontio didrafferth	Mae'r ymarferwyr ond yn nodi cerrig milltir yn natblygiad plentyn
Mae'r ymarferwyr yn annog plant i roi adborth syml, cadarnhaol, cefnogol i'w gilydd	Mae'r ymarferwyr yn asesu'r ffordd y mae'r plant yn ymgysylltu â gweithgareddau ac yn newid gweithgareddau / adnoddau / meysydd yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt	Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant er mwyn sylwi ar unrhyw anawsterau dysgu a / neu ymddygiadol	

Yr amgylchedd

Pa mor dda y mae'r darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel? Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau y gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân, yn sicrhau bod risgiau diangen i'r plant wedi'u nodi ac wedi'u dileu cymaint â phosibl, bod cydbwysedd rhwng yr angen i hyrwyddo diogelwch y plant a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i helpu'r plant i gymryd risgiau. Pa mor dda y mae'r darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau bod y safle ac unrhyw ardaloedd chwarae awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar a'u bod yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu, bod digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant, bod cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant a'i fod yn cael ei ystyried o safbwynt y plentyn, bod y safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod wedi'i addurno'n dda, bod cyfleusterau addas i'r ymarferwyr ac ar gyfer sgysiau cyfrinachol, bod lleoedd chwarae/hamdden i'r plant hŷn yn cynnig heriau, risgiau a chyfleoedd addas i arbrofi. Pa mor dda y mae'r darparwyr/arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, tegantau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion, bod adnoddau yn addas o ran dyluniad a chyflwr, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn cydymffurfio â safonau diogelwch perthnasol, bod adnoddau'n lân a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol ag egwyddorion rheoli haint, bod tegantau a deunyddiau chwarae yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal, bod yr ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu priodol, bod digon o ddodrefn, tegantau, adnoddau ac ati o faint sy'n addas i blant ar gael ar gyfer maint y grŵp, bod y defnydd o amrywiaeth eang o ddeunyddiau cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo.

Mae 'arweinwyr' yn cyfeirio at y bobl sy'n rhedeg y sefydliad. Wrth ddrafftio adroddiadau arolygu rydym yn defnyddio 'pobl sy'n rhedeg y lleoliad'.

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
<p>Mae gan yr arweinwyr fesurau/polisiau cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant</p>	<p>Mae gan yr arweinwyr fesurau/polisiau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant</p>	<p>Mae gan yr arweinwyr fesurau/polisiau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant</p>	<p>Nid oes gan yr arweinwyr fesurau/polisiau digonol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn dan do ac yn yr awyr agored</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan ac mewn cyflwr eithaf da dan do ac yn yr awyr agored</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel nac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau cyson yn effeithiol, sy'n adlewyrchu arferion hylendid rhagorol. Mae eu harferion rheoli heintiau effeithiol iawn yn llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Ar y cyfan, mae eu harferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau ac mae'r gweithdrefnau rheoli heintiau a hylendid yn peri risgiau i iechyd a diogelwch y plant</p>

<p>Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân effeithiol iawn a chynhwysfawr y maent yn eu hadolygu'n rheolaidd ac yn gweithredu arnynt. Mae'r holl bobl berthnasol sy'n cael mynediad i'r amgylchedd yn cael eu hysbysu am y rhain ynghyd â gweithdrefnau brys mewn ffordd glir</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân effeithiol a chywir y maent yn eu hadolygu'n rheolaidd ac yn gweithredu arnynt. Mae'r holl bobl berthnasol sy'n cael mynediad i'r amgylchedd yn cael eu hysbysu am y rhain ynghyd â gweithdrefnau brys</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân boddhaol, y maent yn eu hadolygu ac yn gweithredu arnynt. Mae'r rhain ynghyd â'r gweithdrefnau brys yn cael eu rhannu â'r bobl berthnasol sy'n cael mynediad i'r amgylchedd</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol nac asesiadau perygl tân nac wedi nodi'r holl risgiau. Ni allant roi tystiolaeth bod y gweithdrefnau brys wedi cael eu rhannu â'r bobl berthnasol sy'n cael mynediad i'r amgylchedd</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn goruchwyllo'r plant yn dda ac yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol a'r manteision ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn goruchwyllo'r plant a bod bron pob un yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol a'r manteision ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw</p>	<p>Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn goruchwyllo'r plant yn ddigonol a bod llawer yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol a'r manteision ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn goruchwyllo'r plant na'u bod yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol na'r manteision ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae estynedig dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd ac archwilio. Maent yn sicrhau</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae ddigonol dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn rhoi digon o le i'r plant symud yn rhydd. Nid ydynt yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant nac</p>

bod yr amgylchedd bob amser yn diwallu bron pob un o anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial	diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial	sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi llawer ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial	yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial
Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl a'i bod yn estyniad i'r amgylchedd dysgu. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth eang o adnoddau sy'n herio ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn gyson	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth sylfaenol o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant	Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Mae'r adnoddau yn yr awyr agored yn gyfyngedig
Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol fel ei fod yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd chwarae cyffrous sy'n addas ar gyfer pob ystod oedran y plant y gofelir amdanynt	Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae addas i bron pob ystod oedran y plant y gofelir amdanynt	Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd mewn ffordd briodol fel ei fod yn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o ystodau oedran y plant y gofelir amdanynt	Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn wael a chyfyngedig yw'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant y gofelir amdanynt

<p>Mae'r safle yn groesawgar iawn, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw i safon ragorol gyda systemau gwresogi ac awyru cyson ac effeithiol sy'n dibynnu ar y tymheredd</p>	<p>Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda gyda systemau gwresogi ac awyru cyson a da sy'n dibynnu ar y tymheredd</p>	<p>Ar y cyfan, mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw yn ddigonol gyda systemau gwresogi ac awyru digonol sy'n dibynnu ar y tymheredd</p>	<p>Nid yw'r safle yn groesawgar nac yn gynnes ac nid yw'n hygyrch iawn i bawb. Mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael gyda systemau gwresogi ac awyru amhriodol</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall pob plentyn gael mynediad hawdd at amrywiaeth estynedig o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd rhagorol ac yn addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant.</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall bron pob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall llawer o'r plant gael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored. Mae digon o adnoddau i gynnal diddordeb y plant</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ddodrefn, teganau na chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant, dan do nac yn yr awyr agored, ac mae rhai adnoddau wedi torri ac maent yn frwnt ac yn achosi peryglon a risgiau</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ysgogol er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau da er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb a dysgu am ymwybyddiaeth ddiwylliannol</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn darparu rhai adnoddau er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb, a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol</p>	<p>Nid yw'r arweinwyr yn darparu fawr ddim adnoddau, os o gwbl, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal</p>

<p>Mae ardal chwarae fawr ddiddorol a chyffrous yn yr awyr agored sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd rhagorol a heriol i'r plant/neu nid oes unrhyw ardal chwarae awyr agored ond mae'r arweinwyr yn gwneud trefniadau rhagorol a dyfeisgar i gynnig cyfleoedd awyr agored i'r plant</p>	<p>Mae ardal chwarae awyr agored o faint da sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant/nid oes unrhyw ardal chwarae awyr agored ond mae'r arweinwyr yn gwneud trefniadau dyfeisgar i gynnig cyfleoedd awyr agored i'r plant</p>	<p>Mae ardal chwarae awyr agored ar gael sy'n cael ei chynnal a'i chadw ac sy'n cynnig rhai cyfleoedd chwarae i'r plant/nid oes ardal chwarae awyr agored ond mae'r arweinwyr yn gwneud trefniadau amgen i fynd â'r plant i rywle yn yr awyr agored</p>	<p>Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi'i chynnal a'i chadw'n wael ac mae'n achosi risgiau a pheryglon i'r plant</p> <p>Nid oes unrhyw ardal chwarae awyr agored ar gael, ac ni chynigir trefniadau amgen neu nid ydynt yn ddigonol/diogel</p>
---	---	---	--

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth? Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr: yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn meddu ar ddatganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, yn cyfleu eu gweledigaeth yn dda, yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch, yn mynd ati i helpu a herio pawb i wneud eu gorau, yn gosod disgwyladau uchel, yn datblygu ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau, yn rhannu eu gwerthoedd a'u normau ynglŷn â dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a datblygiad proffesiynol parhaus, yn pennu nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant ac sy'n cael eu deall a'u rhoi ar waith gan bob ymarferydd ac sydd

ar gael i'r rhieni, yn monitro ac yn gwerthuso canlyniadau i'r plant, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person(au) cofrestredig/unigolyn cyfrifol am gynnydd y lleoliad, yn creu ethos cadarnhaol lle y mae'r plant a'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Bydd arolygwyr yn ystyried a yw proses hunanwerthuso'r lleoliad: yn defnyddio gwybodaeth uniongyrchol am ansawdd y gofal a ddarperir, yn cynnwys pob ymarferydd yn y gwaith o asesu canlyniadau a'i berfformiad ei hun, megis myfyrio ar yr hyn y mae'n ei wneud bob dydd, yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, plant, y pwyllgor rheoli a rhanddeiliaid eraill sy'n gymwys i'r lleoliad, a sicrhau bod adroddiad yn cael ei lunio a'i rannu â chyfranwyr, yn defnyddio cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, lle y bo'n briodol, yn blaenoriaethu'r materion y maent am eu gwella, yn rhoi strategaethau cadarn sy'n debygol o sicrhau'r gwelliannau dymunol ar waith, yn ystyried a ymdriniwyd â phryderon/cwynion yn briodol, yn arwain at wella ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu a ddarperir. Pa mor effeithiol y mae'r darparwyr/ymarferwyr ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr: yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol, yn diffinio rolau a chyfrifoldebau, yn sicrhau bod ganddynt system effeithiol o oruchwylio ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt, yn sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys a phrofiadol ar gyfer yr amrywiaeth o blant y gofelir amdanynt a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymarferwyr er mwyn cyflenwi pan fydd aelodau o'r staff i ffwrdd oddi wrth y plant, yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas â nodau'r lleoliad, yn rheoli eu hamser eu hunain ac yn blaenoriaethu eu gweithgareddau eu hunain mewn ffordd ymatebol, yn cyfleu disgwyliadau uchel i'r rhai y maent yn eu rheoli, yn cytuno ar dargedau heriol a realistig iddyn nhw eu hunain ac i eraill ac yn eu cyflawni, yn sicrhau canlyniadau priodol i'r plant yn gyffredinol.

Pa mor effeithiol yw partneriaethau? Bydd arolygwyr yn ystyried a yw'r lleoliad yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldebau i ennyn ymddiriedaeth a sefydlu prosesau cyfathrebu clir rhwng partneriaid. Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r darparwyr/ymarferwyr: yn gweithio gyda rhieni i ystyried anghenion a dewisiadau unigol eu plentyn cyn ac yn ystod ei amser yn y lleoliad, yn gweithio gyda rhieni i wella llesiant a dysgu eu plentyn o ddydd i ddydd, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am lesiant, gofal, datblygiad a chynnydd eu plentyn, yn cynnwys rhieni wrth wneud penderfyniadau am gynnydd a llesiant eu plentyn, yn rhoi gwybodaeth i rieni am bolisiâu a gweithdrefnau'r lleoliad, yn datblygu cysylltiadau â phartneriaid yn y gymuned.

Rhagorol	Da	Adequate/Digonol	Gwael
Mae gan yr arweinwyr weledigaeth arloesol ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill	Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu ag eraill	Mae gan yr arweinwyr weledigaeth sylfaenol ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu ag eraill	Nid oes gan yr arweinwyr unrhyw weledigaeth neu mae eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn aneglur
Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, cynhwysfawr a phroffesiynol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben cyfredol, boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n cyrraedd y rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben sylfaenol iawn ac nid yw'r wybodaeth yn gyfredol neu nid yw'n gyflawn
Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau cymwys ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyson. Maent yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoliadol	Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol bron ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol	Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â llawer o'r rheoliadau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt wybodaeth ddigonol o'r cyfrifoldebau rheoliadol	Nid yw'r arweinwyr yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac nid ydynt yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid ydynt yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoliadol

Mae'r arweinwyr yn adolygu ac yn diweddarau eu polisïau unigol yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol	Mae'r arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn aml ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith i raddau helaeth	Mae'r arweinwyr weithiau'n adolygu eu polisïau ac, ar y cyfan, yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol	Nid yw'r arweinwyr yn adolygu eu polisïau ac nid ydynt yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith
Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn ysbrydoli ac yn arwain eu timau'n effeithiol ac yn herio perfformiad gwael yn gadarn	Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn mynd ati i annog eu timau ac yn herio unrhyw berfformiad gwael yn effeithiol	Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir, maent yn rheoli eu timau'n foddhaol ac yn herio unrhyw berfformiad gwael yn ddigonol	Nid yw'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir; maent yn aneffeithiol o ran rheoli eu timau ac nid ydynt bob amser yn herio perfformiad gwael
Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo arfer gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal yn effeithiol	Mae'r arweinwyr yn rhoi arfer gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal ar waith	Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth o'r arfer gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arfer gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal
Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth eithriadol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn llawn	Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg/neu'n gweithio tuag at ei ddarparu	Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn gweithio tuag at lawer o elfennau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg	Nid yw'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg o gwbl. Nid ydynt yn gwneud unrhyw ymdrech i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg

Mae'r arweinwyr yn archwilio cofnodion yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gywir a bod gwelliannau yn cael eu gwneud pan gânt eu nodi	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol yn cael eu cadw	Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn cael eu cadw
Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC/rheoleiddwyr eraill yn rheolaidd ac yn cymryd cyfrifoldeb i hysbysu AGC am bob digwyddiad arwyddocaol mewn modd amserol	Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag AGC/rheoleiddwyr eraill ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol	Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC/rheoleiddwyr eraill ac yn hysbysu AGC am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau arwyddocaol	Nid yw'r arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC/rheoleiddwyr eraill nac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol
Mae'r arweinwyr yn mynd ati i roi eu cynllun gweithredol cynhwysfawr, sy'n sbarduno gwelliant, ar waith ac yn ei adolygu. Caiff ei rannu â phob person perthnasol	Mae'r arweinwyr yn adolygu eu cynllun gweithredol yn rheolaidd. Caiff ei rannu â phob person perthnasol	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cynllun gweithredol sylfaenol ar waith sy'n cael ei rannu â phob person perthnasol	Nid oes gan yr arweinwyr gynllun gweithredol
Gall yr arweinwyr ddangos eu bod wedi rhoi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer	Gall yr arweinwyr ddangos eu bod yn gweithio tuag at roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd	Gall yr arweinwyr ddangos eu bod wedi rhoi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer	Mae'r arweinwyr wedi methu â dangos eu bod wedi rhoi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd

Ileoliadau gofal plant, ar waith yn llawn	a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ar waith	Ileoliadau gofal plant, ar waith yn rhannol	a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ar waith
Mae'r arweinwyr yn cynnal hunanwerthusiad parhaus ac ystyrllon yn effeithiol. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill â diddordeb yn rheolaidd ac yn gweithredu arnynt.	Mae'r arweinwyr yn mynd ati i roi hunanwerthusiad ar waith. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill ac yn gweithredu arnynt.	Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd gofal yn flynyddol. Weithiau, maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill â diddordeb.	Nid yw'r arweinwyr yn rhoi prosesau hunanwerthuso ar waith ac nid ydynt yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr na phartneriaid eraill â diddordeb.
Mae gan yr arweinwyr brosesau rhagorol wrth ymdrin ag unrhyw bryderon. Maent yn myfyrio ar eu hymarfer yn effeithiol er mwyn gwneud gwelliannau ar unwaith ac yn cydnabod gwersi a ddysgwyd.	Mae gan yr arweinwyr brosesau da wrth ymdrin ag unrhyw bryderon ac yn rhoi gwelliannau ar waith mewn modd amserol.	Mae gan yr arweinwyr brosesau sylfaenol wrth ymdrin ag unrhyw bryderon ac yn rhoi gwelliannau ar waith.	Mae'r arweinwyr yn methu ag ymdrin â phryderon a ddygwyd i'w sylw ac nid ydynt wedi ystyried y gwersi i'w dysgu, sy'n arwain at barhau ag arfer gwael.
Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cefnogi ac yn gwrandao ar y plant pe bai angen codi pryderon/cwynion.	Mae gan yr arweinwyr brosesau effeithiol ar waith er mwyn galluogi'r plant i godi pryderon/cwynion.	Mae gan yr arweinwyr brosesau digonol ar waith er mwyn galluogi'r plant i godi pryderon/cwynion.	Nid oes gan yr arweinwyr unrhyw broses ar waith i gefnogi/galluogi'r plant i godi pryderon/cwynion.
Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a	Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a	Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel er	Mae'r arweinwyr yn methu â rhoi prosesau recriwtio diogel

<p>chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant Mae ganddynt systemau rhagorol ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd yn cael eu diweddarau mewn modd amserol</p>	<p>chadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddarau gwiriadau ynglŷn ag amseroldeb fel sy'n ofynnol</p>	<p>mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddarau gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd fel sy'n ofynnol</p>	<p>ar waith er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau aneffeithiol ar waith i ddiweddarau gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd</p>
<p>Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu effeithiol ar waith ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd yn gyson</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu dda ar waith ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd</p>	<p>Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu briodol ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr ac ymarferwyr</p>	<p>Nid oes gan yr arweinwyr systemau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr/gwirfoddolwyr yn cael eu sefydlu'n briodol</p>
<p>Mae'r broses rheoli perfformiad yn drwyadl iawn ac yn cymhell pob ymarferydd i ragori drwy nodi cynlluniau hyfforddiant unigol. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau ystyrlon a rheolaidd yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'u hymarfer ac yn ysgogi gwelliant</p>	<p>Mae'r broses rheoli perfformiad yn un dda ac yn annog ymarferwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant a chymhwyso'r hyn a ddysgir ganddynt. Cynhelir sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau da a rheolaidd</p>	<p>Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog ymarferwyr i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. Cynhelir sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau sylfaenol weithiau.</p>	<p>Mae'r broses rheoli perfformiad yn anfoddhaol ac nid yw hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Nid oes fawr ddim sesiynau goruchwyllo nac arfarniadau yn cael eu cynnal</p>

Mae diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus y mae'r arweinwyr yn ei efelychu	Mae diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus y mae'r arweinwyr yn ei efelychu	Mae diwylliant o ddatblygiad proffesiynol	Nid oes unrhyw ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol
Mae'r arweinwyr yn sicrhau'n gyson fod ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ac yn rhagori arnynt yn aml a bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant	Mae'r arweinwyr fel arfer yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymarebau staffio ar y cyfan ac yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant	Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr ar gael ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol, sy'n golygu nad yw anghenion llawer o'r plant yn cael eu diwallu
Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer absenoldebau ymarferwyr.	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer absenoldebau ymarferwyr	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau sylfaenol ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o absenoldebau ymarferwyr	Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o absenoldebau ymarferwyr/darparu ymarferwyr ychwanegol, sy'n cael effaith negyddol ar lesiant y plant
Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn hollol	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â	Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn	Nid oes gan yr arweinwyr systemau cyfathrebu nac

gynhwysol. Maent yn rhoi gwybodaeth hynod dda i rieni	rhieni yn dda. Maent yn rhoi gwybodaeth dda i rieni	ddigonol. Ar y cyfan, maent yn rhoi gwybodaeth i rieni	ymgysylltu â rhieni ar waith a/neu maent yn aneffeithiol
Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau cryf iawn ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Mae gan yr arweinwyr gysylltiadau da ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Mae'r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol perthnasol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Nid yw'r arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol, y gymuned na rhanddeiliaid eraill
Mae'r arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol yn gyson i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant y plant a'u hanghenion a nodwyd	Mae'r arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant y plant a'u hanghenion a nodwyd	Mae'r arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant y plant a'u hanghenion a nodwyd	Nid yw'r arweinwyr yn ymateb i wybodaeth na chyngor a roddir i wella llesiant y plant na'u hanghenion a nodwyd
Mae'r arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau clir ac effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth. Mae'r rhain yn cael eu dilyn yn gyson ac mae bron pob plentyn yn cael budd mawr o'r camau a gymerir.	Mae'r arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau ar waith i rannu gwybodaeth. Mae'r rhain yn cael eu dilyn yn gyson ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael budd o'r camau a gymerir.	Mae'r arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau sylfaenol ar waith i rannu gwybodaeth. Mae llawer o blant wedi cael budd o'r camau a gymerir.	Nid oes gan yr arweinwyr weithdrefnau na phrotocolau ar waith i rannu gwybodaeth pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant